

RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
17 wrth gyflwyno'r gwelliant.

Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –
The Bill will be considered in the following order –

Section 2	Adran 2
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 3 - 63	Adrannau 3 - 63
Section 1	Adran 1
Section 66	Adran 66
Schedule 2	Atodlen 2
Sections 67 - 174	Adrannau 67 - 174
Sections 64 - 65	Adrannau 64 - 65
Sections 175 - 184	Adrannau 175 - 184
Schedule 3	Atodlen 3
Sections 185 - 189	Adrannau 185 - 189
Long title	Teitl hir



Lindsay Whittle

77

Section 2, page 2, after line 27, insert –

‘() a preventative and enablement service,’.

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

‘() gwasanaeth ataliol a galluogi,’.

Lindsay Whittle

103

Schedule 1, page 119, after line 26, insert –

‘Preventative and enablement services

() (1) A “preventative and enablement service” means a service which –

(a) achieves (or is designed to achieve) one or more of the purposes in sub-paragraph (2), and

(b) is not provided by an individual acting in a personal capacity.

(2) The purposes are –

(a) reducing the risk of mental deterioration, physical deterioration, accident, disease or ill-health of people;

(b) promoting the physical, social, emotional or psychological well-being of people;

(c) supporting people to live independently for longer;

(d) maximising the ability of people to live as independently as possible by supporting their physical, social or emotional needs.’.

Atodlen 1, tudalen 119, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

‘Gwasanaethau ataliol a galluogi

() (1) Ystyr “gwasanaeth ataliol a galluogi” yw gwasanaeth –

(a) sy’n cyflawni (neu sydd wedi ei gynllunio i gyflawni) un neu ragor o’r dibenion yn is-baragraff (2), a

(b) nad yw’n cael ei ddarparu gan unigolyn sy’n gweithredu mewn rhinwedd bersonol.

(2) Y dibenion yw –

(a) lleihau’r perygl y bydd pobl yn dioddef dirywiad meddyliol, dirywiad corfforol, damwain, clefyd neu afiechyd;

(b) hyrwyddo llesiant corfforol, cymdeithasol, emosiynol neu seicolegol pobl;

(c) cefnogi pobl i fyw’n annibynnol yn hwy;

(d) gwneud y mwyaf o allu pobl i fyw mor annibynnol â phosibl drwy gefnogi eu hanghenion corfforol, cymdeithasol neu emosiynol.’.



Lindsay Whittle

104

Gyda chefnogaeth / Supported by: Mark Drakeford

Schedule 1, page 119, after line 26, insert –

'Advocacy services

- () (1) An “advocacy service” is a service specified for the purposes of this paragraph by regulations made by the Welsh Ministers.
- (2) A service may be specified as an advocacy service only if, and to the extent that, the following requirements are satisfied in relation to the service.
- (3) The first requirement is that the service is a service which is carried on (whether or not for profit) for the purpose of representing the views of individuals, or assisting individuals to represent those views, in respect of matters relating to those individuals' needs for care and support (including matters relating to assessing whether those needs exist).
- (4) The second requirement is that the service is not carried on by a person, in the course of a legal activity (within the meaning of the Legal Services Act 2007 (c.29)), who is –
- (a) an authorised person for the purposes of that Act, or
- (b) a European lawyer (within the meaning of the European Communities (Services of Lawyers) Order (S.I. 1978/1910)).
- (5) Before making regulations under sub-paragraph (1) the Welsh Ministers must consult any persons they think appropriate.
- (6) But the requirement to consult does not apply to regulations which –
- (a) amend other regulations made under that sub-paragraph, and
- (b) do not, in the opinion of the Welsh Ministers, effect any substantial change in the provision made by the regulations to be amended.'

Atodlen 1, tudalen 119, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

'Gwasanaethau eirioli

- () (1) Mae “gwasanaeth eirioli” yn wasanaeth a bennir at ddibenion y paragraff hwn gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
- (2) Ni chaniateir i wasanaeth gael ei bennu'n wasanaeth eirioli oni bai bod y gofynion a ganlyn wedi eu bodloni mewn perthynas â'r gwasanaeth, ac i'r graddau y maent wedi eu bodloni felly.
- (3) Y gofyniad cyntaf yw bod y gwasanaeth yn wasanaeth a gynhelir (pa un ai er elw ai peidio) at ddiben cynrychioli safbwyntiau unigolion, neu helpu unigolion i fynegi'r safbwyntiau hynny, mewn cysylltiad â materion sy'n ymwneud ag anghenion yr unigolion hynny am ofal a chymorth (gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag asesu pa un a yw'r anghenion hynny'n bodoli).



- (4) Yr ail ofyniad yw nad yw'r gwasanaeth yn cael ei gynnal gan berson sydd, yng nghwrs gweithgaredd cyfreithiol (o fewn yr ystyr a roddir i "legal activity" yn Neddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 (p.29)) –
- (a) yn berson awdurdodedig at ddibenion y Ddeddf honno, neu
 - (b) yn Gyfreithiwr Ewropeaidd (o fewn yr ystyr a roddir i "European lawyer" yng Ngorchymyn Cymunedau Ewropeaidd (Gwasanaethau Cyfreithwyr) (O.S. 1978/1910)).
- (5) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-baragraff (1) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.
- (6) Ond nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i reoliadau –
- (a) sy'n diwygio rheoliadau eraill a wneir o dan yr is-baragraff hwnnw, a
 - (b) nad ydynt, ym marn Gweinidogion Cymru, yn rhoi effaith i unrhyw newid sylweddol yn y ddarpariaeth a wneir gan y rheoliadau sydd i'w diwygio.'

Lindsay Whittle

78

Section 6, page 4, after line 15, insert –

- '() identifying any person who will have authority to give instructions about the management of the place at, from or in relation to which the service is to be provided, and'.

Adran 6, tudalen 4, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

- '() sy'n adnabod unrhyw berson y bydd ganddo awdurdod i roi cyfarwyddiadau am reoli'r man y caiff y gwasanaeth ei ddarparu ynddo neu ohono neu mewn perthynas ag ef, ac'.

Lindsay Whittle

79

Section 6, page 4, after line 16, insert –

- '() An application must be accompanied by a declaration by the applicant that any person who will have authority to give instructions about the management of the place at, from or in relation to which the service is to be provided, is a fit and proper person.'

Adran 6, tudalen 4, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

- '() Rhaid i gais gynnwys gydag ef ddatganiad gan yr ymgeisydd fod unrhyw berson y bydd ganddo awdurdod i roi cyfarwyddiadau am reoli'r man y caiff y gwasanaeth ei ddarparu ynddo neu ohono neu mewn perthynas ag ef, yn berson addas a phriodol.'



Lindsay Whittle

80

Gyda chefnogaeth/ Supported by: Mark Drakeford

Section 7, page 4, line 24, leave out –

- ‘care service, contains the undertaking set out in subsection (2), and
(iii) is in the form prescribed under subsection (2) of that section’

And insert –

- ‘support service, contains the undertaking mentioned in section ((*section to be inserted by amendment 84*)), and
() meets the requirements prescribed under section 6(2)’.

Adran 7, tudalen 4, llinell 26, hepgorer –

- ‘gofal cartref, yn cynnwys yr ymgymeriad a nodir yn is-adran (2), a
(iii) ar y ffurf a ragnodir o dan is-adran (2) o’r adran honno’

A mewnosoder –

- ‘cymorth cartref, yn cynnwys yr ymgymeriad yn adran ((*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 84*)), a
() yn bodloni’r gofynion a ragnodir o dan adran 6(2)’.

Lindsay Whittle

81

Gyda chefnogaeth/ Supported by: Mark Drakeford

Section 7, page 5, line 7, leave out subsection (2).

Adran 7, tudalen 5, llinell 8, hepgorer is-adran (2).

Lindsay Whittle

82

Section 7, page 5, after line 18, insert –

- ‘(iii) that the service provider must have policies and procedures in place requiring the delivery of the service to have regard to the preferred language of the person to whom the regulated service is being provided, and’.

Adran 7, tudalen 5, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- ‘(iii) bod yn rhaid i’r darparwr gwasanaethau fod â pholisiau a gweithdrefnau ar waith sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r ddarpariaeth honno roi sylw i ddewis iaith y person y darperir y gwasanaeth rheoleiddiedig iddo, a’.



Lindsay Whittle

83

Page 5, after line 25, insert a new section –

‘() Fit and proper management

The Welsh Ministers must be satisfied that any person who has authority to give instructions about the management of a place at, from or in relation to which a regulated service is provided, is a fit and proper person to have such authority.’.

Tudalen 5, ar ôl llinell 28, mewnosoder adran newydd –

‘() Rheolaeth addas a phriodol

Rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod unrhyw berson sydd ag awdurdod i roi cyfarwyddiadau am reoli’r man y caiff gwasanaeth rheoleiddiedig ei ddarparu ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef, yn berson addas a phriodol i fod ag awdurdod o’r fath.’.

Lindsay Whittle

84

Gyda chefnogaeth/ Supported by: Mark Drakeford

Page 5, after line 25, insert a new section –

‘() Duration of domiciliary support visits

- (1) The undertaking mentioned in section 7(1)(a)(ii) and 10(3)(a) (*sub-paragraph to be inserted by amendment 93*) is that a domiciliary support service will not be provided by way of a visit which is shorter than 30 minutes unless either condition A, B or C is met.
- (2) Condition A applies where –
 - (a) a local authority is required –
 - (i) by virtue of section 35 or 37 of the 2014 Act, to meet the needs of the person being visited, or
 - (ii) by virtue of section 40 or 42 of that Act, to meet the needs of that person’s carer, and
 - (b) the authority meets those needs by providing or arranging the provision of a domiciliary support service to the person being visited.
- (3) Condition A is that –
 - (a) the individual carrying out the visit has previously carried out a visit during the period for which the local authority maintains –
 - (i) a care and support plan under section 54(1) of the 2014 Act in respect of the person being visited, or
 - (ii) a support plan under that section in respect of the person’s carer, and
 - (b) either –



- (i) the visit is conducted for the sole purpose of checking whether the person is safe and well, or
 - (ii) the tasks to be performed during the visit can reasonably be, and are, completed to a standard which satisfies any requirements specified in regulations made under section 26 that are relevant to the visit.
- (4) Condition B applies where a domiciliary support service is provided in circumstances where Condition A does not apply.
- (5) Condition B is that –
- (a) a visit of less than 30 minutes is consistent with the terms of any arrangement to provide the service made between the service provider and the person being visited (or another person acting on behalf of the person being visited),
 - (b) the visit is conducted for the sole purpose of checking whether the person is safe and well, or
 - (c) the tasks to be performed during the visit can reasonably be, and are, completed to a standard which satisfies any requirements specified in regulations made under section 26 that are relevant to the visit.
- (6) Condition C applies in any case where a domiciliary support service is provided by way of a visit to a person.
- (7) Condition C is that the visit is curtailed at the request of the person being visited.’

Tudalen 5, ar ôl llinell 28, mewnosoder adran newydd –

‘() Hyd ymweliadau cymorth cartref

- (1) Yr ymgymeriad a grybwyllir yn adran 7(1)(a)(ii) a 10(3)(a)((*yr is-baragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 93*)) yw na fydd gwasanaeth cymorth cartref yn cael ei ddarparu drwy ymweliad sy'n fyrrach na 30 munud oni bai bod naill ai amod A, B neu C wedi ei fodloni.
- (2) Mae Amod A yn gymwys pan –
- (a) fo'n ofynnol i awdurdod lleol –
 - (i) yn rhinwedd adran 35 neu 37 o Ddeddf 2014, ddiwallu anghenion y person yr ymwelir ag ef, neu
 - (ii) yn rhinwedd adran 40 neu 42 o'r Ddeddf honno, ddiwallu anghenion gofalwr y person hwnnw, a
 - (b) fo'r awdurdod yn diwallu'r anghenion hynny drwy ddarparu gwasanaeth cymorth cartref neu drwy drefnu bod gwasanaeth cymorth cartref yn cael ei ddarparu i'r person yr ymwelir ag ef.
- (3) Amod A yw –
- (a) bod yr unigolyn sy'n cynnal yr ymweliad wedi cynnal ymweliad blaenorol yn ystod y cyfnod y mae'r awdurdod lleol yn cynnal –
 - (i) cynllun gofal a chymorth o dan adran 54(1) o Ddeddf 2014 mewn cysylltiad â'r person yr ymwelir ag ef, neu



- (ii) cynllun cymorth o dan yr adran honno mewn cysylltiad â gofalwr y person, a
- (b) naill ai –
 - (i) y cynhelir yr ymweliad at yr unig ddiben o gadarnhau a yw'r person yn ddiogel ac yn iach, neu
 - (ii) y gall y tasgau sydd i gael eu cwblhau yn ystod yr ymweliad gael eu cwblhau'n rhesymol, a'u bod yn cael eu cwblhau, i safon sy'n bodloni unrhyw ofynion a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 26 sy'n berthnasol i'r ymweliad.
- (4) Mae Amod B yn gymwys pan fo gwasanaeth cymorth cartref yn cael ei ddarparu o dan amgylchiadau pan na fo Amod A yn gymwys.
- (5) Amod B yw –
 - (a) bod ymweliad sy'n llai na 30 munud yn gyson â thelerau unrhyw drefniant i ddarparu'r gwasanaeth a wneir rhwng y darparwr gwasanaeth a'r person yr ymwelir ag ef (neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person yr ymwelir ag ef),
 - (b) y cynhelir yr ymweliad at yr unig ddiben o gadarnhau a yw'r person yn ddiogel ac yn iach, neu
 - (c) y gall y tasgau sydd i gael eu cwblhau yn ystod yr ymweliad gael eu cwblhau'n rhesymol, a'u bod yn cael eu cwblhau, i safon sy'n bodloni unrhyw ofynion a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 26 sy'n berthnasol i'r ymweliad.
- (6) Mae Amod C yn gymwys mewn unrhyw achos pan fo gwasanaeth cymorth cartref yn cael ei ddarparu drwy ymweliad â pherson.
- (7) Amod C yw bod yr ymweliad yn cael ei gwtogi ar gais y person yr ymwelir ag ef'.

Lindsay Whittle

85

Section 8, page 5, after line 33, insert –

- '() This section applies to any decision of the Welsh Ministers as to whether they are satisfied that any person who has authority to give instructions about the management of a place at, from or in relation to which a regulated service is provided, is a fit and proper person to have such authority.'

Adran 8, tudalen 5, ar ôl llinell 37, mewnosoder –

- '() Mae'r adran hon yn gymwys i unrhyw benderfyniad gan Weinidogion Cymru o ran a ydynt wedi eu bodloni bod unrhyw berson sydd ag awdurdod i roi cyfarwyddiadau am reoli'r man y caiff gwasanaeth rheoleiddiedig ei ddarparu ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef, yn berson addas a phriodol i fod ag awdurdod o'r fath.'

Lindsay Whittle

86

Section 8, page 6, line 21, leave out 'or, as the case may be, a responsible individual' and insert ', a responsible individual or a person with authority to give instructions about the management of a place at, from or in relation to which a regulated service is provided, as the case may be'.



Adran 8, tudalen 6, llinell 23, hepgorer 'neu, yn ôl y digwydd, yn unigolyn cyfrifol' a mewnosoder '
, yn unigolyn cyfrifol neu yn berson ag awdurdod i roi cyfarwyddiadau am reoli'r man y caiff
gwasanaeth rheoleiddiedig ei ddarparu ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef, yn ôl y
digwydd'.

***Mark Drakeford**

1

Gyda chefnogaeth / Supported by: Altaf Hussain

Section 8, page 6, after line 22, insert –

- '() Evidence is within this subsection if it shows that the person has been responsible for, contributed to or facilitated misconduct or mismanagement in the provision –
- (a) of a regulated service or a service provided outside Wales which, if provided in Wales, would be a regulated service;
 - (b) of a service which would have fallen within paragraph (a) had the regulatory system established by this Part been operating at the time the service was being provided.
- () When having regard to evidence within subsection (*first subsection to be inserted by amendment 1*)), the Welsh Ministers must, among other things, take account of –
- (a) the seriousness and duration of the misconduct or mismanagement;
 - (b) harm caused to any person, or any evidence of an intent to cause harm;
 - (c) any financial gain made by the person;
 - (d) any action taken by the person to remedy the misconduct or mismanagement.'

Adran 8, tudalen 6, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

- '() Mae tystiolaeth o fewn yr is-adran hon os yw'n dangos bod y person wedi bod yn gyfrifol am gamymddwyn neu gamreoli, neu wedi cyfrannu ato neu wedi ei hwyluso, wrth ddarparu –
- (a) gwasanaeth rheoleiddiedig neu wasanaeth a ddarperir y tu allan i Gymru a fyddai'n wasanaeth rheoleiddiedig pe bai'n cael ei ddarparu yng Nghymru;
 - (b) gwasanaeth a fyddai wedi dod o fewn paragraff (a) pe bai'r system reoleiddiol sydd wedi ei sefydlu gan y Rhan hon wedi bod yn weithredol ar yr adeg pan oedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu.
- () Wrth roi sylw i dystiolaeth o fewn is-adran (*yr is-adran gyntaf sy'n cael ei mewnosod gan welliant 1*)), rhaid i Weinidogion Cymru, ymhlith pethau eraill, ystyried –
- (a) pa mor ddifrifol yw'r camymddwyn neu'r camreoli ac am ba hyd y bu'n digwydd;
 - (b) niwed a achoswyd i unrhyw berson, neu unrhyw dystiolaeth o fwriad i achosi niwed;
 - (c) unrhyw fantais ariannol a enillwyd gan y person;
 - (d) unrhyw gamau a gymerwyd gan y person i unioni'r camymddwyn neu'r camreoli.'



Lindsay Whittle

87

Gyda chefnogaeth / Supported by: Mark Drakeford

Section 8, page 6, after line 24, insert –

‘() an undertaking given under section 7(1)(a)(ii) or 10(3)(a)((*sub-paragraph to be inserted by amendment 93*)),’.

Adran 8, tudalen 6, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

‘() ag ymgymeriad a roddir o dan adran 7(1)(a)(ii) neu 10(3)(a)((*yr is-baragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 93*)),’.

Lindsay Whittle

88

Gyda chefnogaeth / Supported by: Mark Drakeford

Section 9, page 7, after line 6, insert –

‘() such information about training offered or undertaken in relation to each such service as may be prescribed;’.

Adran 9, tudalen 7, ar ôl llinell 6, mewnosoder –

‘() unrhyw wybodaeth a ragnodir am hyfforddiant a gynigir neu a gyflawnir mewn perthynas â phob gwasanaeth o'r fath;’.

Lindsay Whittle

89

Gyda chefnogaeth / Supported by: Mark Drakeford

Section 9, page 7, leave out line 7 and insert –

‘() such information about workforce planning as may be prescribed;’.

Adran 9, tudalen 7, hepgorer llinell 7 a mewnosoder –

‘() unrhyw wybodaeth am gynllunio'r gweithlu a ragnodir;’.

Lindsay Whittle

90

Gyda chefnogaeth / Supported by: Mark Drakeford

Section 9, page 7, line 16, after ‘containing’, insert –

‘ –

- (a) the first regulations made under subsection (2)(a)((*sub-paragraph to be inserted by amendment 88*)),
- (b) the first regulations made under subsection (2)(a)((*sub-paragraph to be inserted by amendment 89*)), or’.



Adran 9, tudalen 7, llinell 17, ar ôl 'cynnwys', mewnosoder –

' –

- (a) y rheoliadau cyntaf a wneir o dan is-adran (2)(a)((*yr is-baragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 88*)),
- (b) y rheoliadau cyntaf a wneir o dan is-adran (2)(a)((*yr is-baragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 89*)), neu'.

Lindsay Whittle

91

Section 10, page 7, after line 34, insert –

'(d) there is a change to the persons identified under section 6(1)((*paragraph to be inserted by amendment 78*)).'

Adran 10, tudalen 7, ar ôl llinell 38, mewnosoder –

'(d) os oes newid i'r personau a enwir o dan adran 6(1)((*y baragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 78*)).'

Lindsay Whittle

92

Section 10, page 8, after line 4, insert –

'() The Welsh Ministers must, by regulations, prescribe a time limit within which an application for variation of a provider's registration must be made in the circumstances referred to in subsection (1)((*paragraph to be inserted by amendment 91*)).'

Adran 10, tudalen 8, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

'() Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ragnodi terfyn amser y mae'n rhaid gwneud cais i amrywio cofrestriad darparwr yn yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)((*y baragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 91*)) ynddo.'

Lindsay Whittle

93

Gyda chefnogaeth / Supported by: Mark Drakeford

Section 10, page 8, after line 7, insert –

'() in the case of an application under subsection (1)(a)(i) to provide a domiciliary support service, the undertaking set out in section ((*section to be inserted by amendment 84*)), and'.

Adran 10, tudalen 8, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

'() yn achos cais o dan is-adran (1)(a)(i) i ddarparu gwasanaeth cymorth cartref, yr ymgymeriad yn adran ((*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 84*)), a'.



Lindsay Whittle

94

Section 14, page 10, after line 6, insert—

- '(g) the Welsh Ministers are not satisfied that any person who has authority to give instructions about the management of the place at, from or in relation to which a regulated service is provided is fit and proper (and the time limit prescribed in regulations made under section 10(*subsection to be inserted by amendment 92*)) has expired).'

Adran 14, tudalen 10, ar ôl llinell 6, mewnosoder—

- '(g) nid yw Gweinidogion Cymru yn fodlon bod unrhyw berson y mae ganddo awdurdod i roi cyfarwyddiadau am reoli'r man y caiff y gwasanaeth rheoleiddiedig ei ddarparu ynddo neu ohono neu mewn perthynas ag ef, yn berson addas a phriodol (ac mae'r terfyn amser a ragnodir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 10(*yr is-adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 92*)) wedi dod i ben).'

Mark Drakeford

2

Section 14, page 10, line 15, leave out subsection (3).

Adran 14, tudalen 10, llinell 15, hepgorer is-adran (3).

Mark Drakeford

3

Section 21, page 15, line 3, leave out “caution” and “relevant offence” have’ and insert “relevant offence” has’.

Adran 21, tudalen 15, llinell 3, hepgorer “rhybuddiad” a’.

Lindsay Whittle

95

Page 18, after line 35, insert a new section—

Prohibition on zero hours contracts

() Prohibition on zero hours contracts

- (1) A service provider must not employ, or enter into a contract for services with, a social care worker, where the social care worker agrees to be available for work but with no guarantee of minimum hours.
- (2) The Welsh Ministers may by regulations amend subsection (1) by varying the type of employment and contracts for services for the time being contained in that subsection.
- (3) In this section, “social care worker” means a person who—
 - (a) engages in relevant social work;
 - (b) manages a place at or from which a regulated service is provided;

- (c) in the course of his or her employment with a service provider, provides care and support to any person in Wales in connection with a regulated service provided by that provider;
- (d) under a contract for services, provides care and support to any person in Wales in connection with a regulated service provided by a service provider.

(4) In this section, “relevant social work” has the same meaning as in section 78(4).’.

Tudalen 18, ar ôl llinell 37, mewnosoder adran newydd –

‘Gwahardd contractau dim oriau

() Gwahardd contractau dim oriau

- (1) Ni chaniateir i ddarparwr gwasanaeth gyflogi gweithiwr gofal cymdeithasol na llunio contract ar gyfer gwasanaethau gyda gweithiwr gofal cymdeithasol, pan fo’r gweithiwr gofal cymdeithasol yn cytuno i fod ar gael i weithio ond heb roi gwarant o isafswm oriau.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio is-adran (1) drwy amrywio’r math o gyflogaeth a chontractau am wasanaethau ar gyfer yr amser sydd wedi’i gynnwys yn yr is-adran honno.
- (3) Yn yr adran hon, ystyr “gweithiwr gofal cymdeithasol” yw person –
 - (a) sy’n ymgymryd â gwaith cymdeithasol perthnasol;
 - (b) sy’n rheoli man y darperir gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo neu ohono;
 - (c) sydd, yn ystod ei gyflogaeth gyda darparwr gwasanaeth, yn darparu gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr hwnnw;
 - (d) sydd, o dan gontract am wasanaethau, yn darparu gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth.
- (4) Yn yr adan hon, mae i “gwaith cymdeithasol perthnasol” yr ystyr a roddir yn adran 78(4).’.

Lindsay Whittle

96

Section 26, page 19, after line 6, insert –

- () the policies and procedures a service provider must have in place which help employees, who believe they have discovered malpractice, impropriety or other wrongdoing in relation to a regulated service which could affect regulated service users, to raise those concerns in an effective way.’.

Adran 26, tudalen 19, ar ôl llinell 6, mewnosoder –

- () y polisiau a’r gweithdrefnau y mae’n rhaid eu bod ar waith gan ddarparwr gwasanaeth i helpu cyflogeion, sy’n credu eu bod wedi dod ar draws camymddygiad, amhriodoldeb neu gamwedd arall mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig a allai effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, i nodi’r pryderon hynny mewn ffordd effeithiol.’.



Lindsay Whittle

97

Gyda chefnogaeth / Supported by: Mark Drakeford

Section 26, page 19, line 7, leave out subsection (3) and insert –

- ‘() The Welsh Ministers must, when making regulations imposing requirements of the kind mentioned in subsection (2), have regard to –
- (a) the importance of the well-being of any individuals to whom care and support will be provided, and
 - (b) the quality standards included in any code issued under section 9 of the 2014 Act (codes to help achieve outcomes specified in well-being statements).’.

Adran 26, tudalen 19, llinell 7, hepgorer is-adran (3) a mewnosoder –

- ‘() Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau sy'n gosod gofynion o'r math a grybwyllir yn is-adran (2), roi sylw –
- (a) i bwysigrwydd llesiant unrhyw unigolion y bydd gofal a chymorth yn cael eu darparu iddynt, a
 - (b) i'r safonau ansawdd sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw god a ddyroddir o dan adran 9 o Ddeddf 2014 (codau ar gyfer helpu i sicrhau canlyniadau a bennir mewn datganiadau llesiant).’.

Lindsay Whittle

98

Section 28, page 20, line 5, after ‘service’, insert ‘and any policy and procedure requirements’.

Adran 28, tudalen 20, llinell 5, ar ôl ‘rheoleiddiedig’, mewnosoder ‘ac unrhyw ofynion o ran polisïau a gweithdrefnau’.

Altaf Hussain

38

Section 32, page 21, line 32, after ‘of’, insert ‘, and the involvement and engagement of lay reviewers in the carrying out of,’.

Adran 32, tudalen 21, llinell 36, ar ôl ‘arolygiadau’ yn yr ail le y mae'n ymddangos, mewnosoder ‘a chynnwys ac ymgysylltu adolygwyr lleyg yn y broses o gynnal yr arolygiadau’.

Altaf Hussain

39

Section 40, page 27, leave out line 33.

Adran 40, tudalen 27, hepgorer llinell 35.



Altaf Hussain

40

Page 28, after line 2, insert a new section –

() United Nations Convention on the Rights of Persons with Disabilities

The Welsh Ministers must have regard to the United Nations Convention on the Rights of Persons with Disabilities and its Optional Protocol (adopted by the United Nations General Assembly on 13 December 2006 and opened for signature on 30 March 2007) when exercising their regulatory functions.’.

Tudalen 28, ar ôl llinell 2, mewnosoder adran newydd –

() Confensiwn y Cenhedloedd unedig ar hawliau Pobl ag Anableddau

Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'i Brotocol Dewisol (a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 13 Rhagfyr 2006 ac a agorwyd i'w lofnodi ar 30 Mawrth 2007) wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddio.’.

Altaf Hussain

41

Section 41, page 28, after line 25, insert –

‘(e) section ((*section to be inserted by amendment 40*)) (duty to have due regard to the United Nations Convention on the Rights of Persons with Disabilities).’.

Adran 41, tudalen 28, ar ôl llinell 28, mewnosoder –

‘(e) adran ((*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 40*)) (dyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau).’.

Lindsay Whittle

99

Page 29, after line 25, insert a new section –

() Offence of using zero hours contracts

It is an offence for a person to employ a person or to enter into a contract for services in contravention of section ((*section to be inserted by amendment 95*)).’.

Tudalen 29, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd –

() Trosedd defnyddio contractau dim oriau

Mae'n drosedd i berson gyflogi person neu lunio contract am wasanaethau yn groes i adran ((*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 95*)).’.

Lindsay Whittle

100

Section 50, page 30, line 28, after ‘section’, insert ‘((*section to be inserted by amendment 99*)) or’.

Adran 50, tudalen 30, llinell 28, ar ôl ‘adran’, mewnosoder ‘((*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 99*)) neu’.



Mark Drakeford

4

Section 54, page 32, after line 10, insert –

- ‘() Proceedings in respect of an offence under this Part or regulations made under it may not, without the written consent of the Counsel General to the Welsh Government, be brought by any person other than the Counsel General or the Welsh Ministers.’

Adran 54, tudalen 32, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

- ‘() Ni chaniateir i achos mewn cysylltiad â throsedd o dan y Rhan hon neu reoliadau a wneir odani, heb gydsyniad ysgrifenedig Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, gael ei ddwyn gan unrhyw berson ac eithrio'r Cwnsler Cyffredinol neu Weinidogion Cymru.’

Mark Drakeford

5

Section 54, page 32, line 11, leave out ‘under’ at the second place where it appears.

Adran 54, tudalen 32, llinell 11, hepgorer ‘o dan’ yn yr ail le y mae’n ymddangos.

Kirsty Williams

74

Section 56, page 42, after line 15, insert –

- ‘() After section 166 of the 2014 Act (partnership arrangements) insert –

“166A Partnership arrangements: commissioning

Section 166B applies where, as part of a partnership arrangement, a local health board commissions a regulated service.

166B Partnership arrangements: commissioning: supplementary

- (1) The Welsh Ministers may review the way in which regulated services are commissioned by local health boards participating in partnership arrangements.
- (2) In particular, the Welsh Ministers may –
 - (a) review the overall commissioning of regulated services by local health boards;
 - (b) review the way in which regulated services are commissioned by a particular local health board;
 - (c) review the commissioning of a particular regulated service (whether exercised by a single local board or by two or more boards working together);
 - (d) review the commissioning of a regulated service by a particular person or persons.
- (3) The Welsh Ministers must –
 - (a) prepare and publish a report of a review conducted under subsection (1), and



(b) lay a copy of the report before the National Assembly for Wales.

(4) "Regulated service" has the meaning given by section 2(1) of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016."

Adran 56, tudalen 42, ar ôl llinell 15, mewnosoder –

'() Ar ôl adran 166 o Ddeddf 2014 (trefniadau partneriaeth) mewnosoder –

"166A Trefniadau partneriaeth: comisiynu

Mae adran 166B yn gymwys pan fo bwrdd iechyd lleol, fel rhan o drefniant partneriaeth, yn comisiynu gwasanaeth rheoleiddiedig.

166B Trefniadau partneriaeth: comisiynu: atodol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r ffordd y caiff gwasanaethau rheoleiddiedig eu comisiynu gan fyrddau iechyd lleol sy'n cymryd rhan mewn trefniadau partneriaeth.

(2) Yn benodol, caiff Gweinidogion Cymru –

(a) adolygu'r ffordd gyffredinol y caiff gwasanaethau rheoleiddiedig eu comisiynu gan fyrddau iechyd lleol;

(b) adolygu'r ffordd y caiff gwasanaethau rheoleiddiedig eu comisiynu gan fwrdd iechyd lleol penodol;

(c) adolygu'r ffordd y caiff gwasanaeth rheoleiddiedig penodol ei gomisiynu (pa un a yw wedi ei arfer gan un fwrdd lleol neu gan ddau neu ragor o fyrddau yn cydweithio);

(d) adolygu'r ffordd y caiff gwasanaeth rheoleiddiedig ei gomisiynu gan berson neu bersonau penodol.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru –

(a) llunio a chyhoeddi adroddiad ar adolygiad a gynhelir o dan is-adran (1), a

(b) gosod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Mae i "gwasanaeth rheoleiddiedig" yr ystyr a roddir gan adran 2(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016."

Mark Drakeford

6

Section 57, page 43, line 13, leave out 'maintained' and insert 'kept'.

Adran 57, tudalen 43, llinell 13, hepgorer 'gynhelir' a mewnosoder 'gedwir'.



Suzy Davies

68

Section 60, page 45, after line 22, insert—

- '() Before making regulations under subsection (6) the Welsh Ministers must consult any persons they think appropriate.
- () But the requirement to consult does not apply to regulations which—
